"Darparu addysg cyfrwng Cymraeg gyflawn o fewn cymuned hapus, ofalgar ac uchelgeisiol lle mae pob aelod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael cefnogaeth ac yn cael eu trin gyda pharch a goddefgarwch"

Tymor yr Haf 2016

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

# Newyddion Bryn Tawe

## DYDDIADAU PWYSIG Y TYMOR:

**Nosweithiau Rhieni:**
**27/06/16-Pontio blwyddyn 6**

**ARHOLIADAU:**
**TGAU a Safon Uwch:**
16/05/16-29/06/16
**Profion Cenedlaethol 7-9:**
27/04/16-Rhifedd
28/04/16-Rhesymu
03/05/16-Darllen Cymraeg
04/05/16-Darllen Saesneg
**Profion Ysgol:**
09-13/04/16-Blwyddyn 9
09-16/05/16-Blwyddyn 8
16-20/05/16-Blwyddyn 7

**Eraill:**
24/06/16-Mabolgampau'r Ysgol
01/07/16-HMS (ar gau i ddisgyblion)

## Gair gan y Pennaeth

Rydym newydd ddechrau ar dymor hynod brysur unwaith eto ar gyfer ein disgyblion a staff yr Ysgol. Mae tymor yr arholiadau arnom bellach, ac yn gyfnod pwysig i bob un o'n disgyblion wrth iddynt baratoi yn llawn ar gyfer y profion gwahanol fyddant yn eu hwynebu. Mae manylion y dyddiadau a chefnogaeth ychwanegol sydd ar gael yn y rhifyn hwn, a bydd pob disgybl yn derbyn arweiniad pellach dros yr wythnosau nesaf.

Fel 'Ysgol Arloesol Cwricwlwm' rydym wrthi ar hyn o bryd, mewn partneriaeth gydag Ysgol Gyfun Gŵyr a'n hysgolion cynradd, yn datblygu model cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru yn dilyn argymhellion yr Athro Donaldson. Mae hwn yn gyfle cyffrous ac arbennig i ni fel ysgolion i allu dylanwadu ar beth a sut fydd ein disgyblion yn dysgu yn y dyfodol. Bydd diweddariad o'r cynllun yn y rhifyn nesaf.

Yn ein cylchlythyr cyntaf eleni, fe soniais am ein cynlluniau i wella agweddau o'r ysgol eleni. Rwy'n siŵr eich bod yn gwybod bellach ein bod yn ysgol 'Werdd' yn ôl categori cefnogaeth y Llywodraeth. Mae hyn yn destun balchder i ni ac yn cadarnhau bod y gwaith caled y mae'r holl ddisgyblion a'r staff yn ei wneud yn sicrhau bod yr ysgol yn parhau i wella. O ran ein ffocysau eleni, rydym yn ffyddiog y byddwn yn gallu efelychu canlyniadau llynedd; mae ffocws barhaus gan bob athro ar wella ei berfformiad i sicrhau'r gwersi mwyaf effeithiol ar gyfer ein disgyblion - pleser a braint yw cael y cyfle i arsylwi gwersi ein hathrawon yn gyson a phrofi'r profiadau amrywiol o ansawdd uchel mae ein disgyblion yn eu derbyn! Wedi agor y ganolfan adferol ym mis Medi, rydym yn barod yn gweld effaith bositif iawn yng nghyhynnydd disgyblion penodol wrth allu cefnogi eu hanghenion amrywiol. Yn ogystal, mae yna gynlluniau gennym i'w wella eto o fis Medi – manylion hwn i ddilyn.



Cafwyd taith sgïo lwyddiannus i Awstria dros y Pasg – am fanylion taith 2017 – cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

**Cofio'n annwyl**

Mae'n flwyddyn bellach ers i bawb yn yr Ysgol gael eu hysgwyd yn ofnadwy pan gollon ni ddau aelod annwyl iawn o'n cymuned. Mae'n meddyliau a'n gweddïau ni yn parhau i fod gyda theulu a ffrindiau Thomas Jones, disgybl disglair o'n Chweched, ac aelod o staff poblogaidd a thyner iawn, Sarah Evans.

## Siarter Iaith a Hawliau Disgyblion

Mewn partneriaeth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg Abertawe, rydym wrthi'n cynllunio 'Siarter Iaith' y Gymraeg ar gyfer pobl ifanc y ddinas. Un o brif fwriadau'r siarter yw i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Credwn y gall ein rhieni hefyd ddylanwadu'n bositif iawn ar hyn drwy annog ein disgyblion i ddefnyddio'r iaith mor aml â phosib tu allan i'r ysgol e.e. pan fydd ein disgyblion yn cymdeithasu a'u gilydd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol. Mae nifer o'n disgyblion a'n staff wedi bod wrthi mewn gweithdai cynllunio ar gyfer lansio'r siarter yn swyddogol ym mis Medi – cewch ragor o wybodaeth ar yr ymgyrch gyffrous yma yn ystod y tymor.



Cafwyd diwrnod hynod lwyddiannus yng nghynhadledd Hawliau Plant yr ysgol. Ymunodd 'Cynghorau Ysgol' ein hysgolion partner i gyd yn y diwrnod diddorol iawn yma. Yn sicr, mae ein safle fel 'Ysgol Sy'n Parchu Hawliau' wedi rhoi perchnogaeth i'n disgyblion i arwain ar led-aenu pwrpas a ffocws hawliau plant ar draws ein clwstwr ac ymhellach!

Ysgol Sy'n Parchu Hawliau – UNICEF

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur

# Arholiadau ac adolygu!

Mae nifer o strategaethau ar waith i gefnogi ein disgyblion ni i gyd yn ystod y cyfnod prysur a phwysig yma. Cofiwch eu hatgoffa i'w defnyddio:

- Clybiau gwaith cartref pob awr ginio
- Cryno ddisg adolygu ar gyfer y profion cenedlaethol i fl. 7-9
- Wythnos sgiliau yn eu gwersi i baratoi ar gyfer y profion cenedlaethol
- Sesiynau adolygu cinio ac ar ôl ysgol.
- Safweoedd amrywiol— gofynnwch i'ch plentyn gysylltu gyda'u hathrawon am fanylion.
- Cyn bapurau a chynlluniau ateb.
- Nosweithiau ffocws gyda rhieni...

Yn ogystal â'r uchod, mae'n allweddol nawr bod pob un o'n disgyblion yn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt ar ôl cyn yr arholiadau allanol er mwyn paratoi'n llawn ar eu cyfer— cysylltwch â'ch arweinydd dysgu am ragor o fanylion.

## Awgrymiadau adolygu

Oeddech chi'n gwybod bod creu rhestr o bwyntiau bwled i gofio gwybodaeth yn aneffeithlon i'r rhan fwyaf o ddisgyblion? Beth am greu mapiau meddwl creadigol sy'n cofnodi'r wybodaeth mewn ffordd liwgar gan ddefnyddio delweddau?

Ar ôl profi eu hunain y diwrnod canlynol, yr wythnos ganlynol a'r mis canlynol dylent allu cofio rhwng 90% a 100% o'r wybodaeth, a hyn am ychydig o funudau bob dydd.

**TECHNEGAU**

Cofeiriau (e.e. *Never Eat Shredded Wheat*)
Cadwyni Delweddau (gosod rhestr o eiriau mewn stori ddychmygol)
Geiriau Cysylltiol (cysylltu eitemau â delwedd sy'n berthnasol â rhif)
Loci (dychmygu eitemau mewn lleoliad mewn ystafell etc.)

## Eisteddfota!



Cafwyd eisteddfod ysgol hwylus iawn ar ddiwedd hanner tymor Chwefror, gyda llys Gomer yn fuddugol! Gweler enillwyr y cystadlaethau Llenyddiaeth yng nghwmni Laura Hughes, enillydd Cadair yr Eisteddfod eleni.

Cawsom lwyddiant aruthrol yn yr Eisteddfod Sir eleni wrth ennill pob cystadleuaeth, unigolyn neu grŵp, roedd gennym gynrychiolaeth ynddi! Edrychwn ymlaen i weld perfformiadau'r disgyblion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Fflint rhwng y 1-5 o Fehefin eleni.

## Prif ddisgyblion

**Diolch...**

Mae cyfnod y pedwar presennol yn dod i ben wrth i ni ethol prif ddisgyblion newydd. Hoffwn ddiolch i Nerys, Llŷr, Gwen ac Adam am eu cyfraniadau amrywiol a gwerthfawr iawn—dymuniadau da i chi gyda'r arholiadau ac i'r dyfodol!

**Llongyfarchiadau...**

Fe wnaeth 8 disgybl gais eleni ar gyfer rolau'r prif ddisgyblion, gyda phob un yn cyflwyno araith arbennig o dda. Bu 4 yn llwyddiannus yna yn cael eu ethol i'r rolau canlynol:

**Prif Ferch—Anna Mathews**

**Prif Fachgen—Iestyn Davies**

**Dirprwy Prif Ferch—Sara Dafydd**

**Dirprwy Prif Fachgen—Kadun Rees**

Cawn glywed am eu cynlluniau i ddatblygu'r rôl ymhellach yn y dyfodol agos.

## Gwisg ysgol

Mae'n braf gweld balchder y rhan fwyaf o'n disgyblion yn eu hymddangosiad a'u hymrwymiad i safonau yn yr ysgol. Serch hyn, mae ychydig iawn o'n disgyblion ddim yn cydymffurfio yn barhaus. Am fanylion llawn y wisg, gwiriwch lyfr cyswllt eich plentyn.

**Ymgyrch Presenoldeb yr hanner tymor**:

Bydd pob disgybl sydd â phresenoldeb 100% am bob wythnos â'r potensial i ennill gwobr yr wythnos, gyda'r dosbarth gorau hefyd yn ennill gwobr. Byddwch yma i ennill y gwobrau gwych mae eich Cyngor Ysgol wedi dewis!

## 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth'



Yn dilyn gweithdai i Flwyddyn 12 gan yr elusen 'Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth' ar ddechrau'r flwyddyn, aeth myfyrwyr y Chweched ati'n ddiweddar i gynnal sesiynau ABCh i Flwyddyn 8 ar Hiliaeth. Roedd y sesiynau'n ffocysu ar ystrydebu, defnydd cadarnhaol o eiriau ac hiliaeth o fewn y byd chwaraeon. Roedd yr adborth gan ddisgyblion Blwyddyn 8 yn hynod o bositif ac roedden nhw wrth eu boddau'n trafod y negeseuon pwysig hyn gyda myfyrwyr hŷn yr ysgol. Diolch Blwyddyn 12!

## Rhieni Blwyddyn 11

Mae'r Gyfadran Saesneg wedi estyn gwahoddiad i rieni flwyddyn 11 i gyd at noson gyswllt ar y 25ain o Ebrill 2016. Rydych eisioes wedi derbyn llythyr wrth y gyfadran yn esbonio hyn.

Bwriad y noson fydd egluro cynnwys y ddwy uned arholiad gan gyfeirio at enghreifftiau o ymatebion llwyddiannus ac aflwyddiannus gan ddisgyblion o gyfres mis Ionawr.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur